At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2020-21.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol | Cafwyd dau gyfnod o ymgysylltu cyhoeddus drwy Commonplace ar yr Adolygiad o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion. Gyda chymorth Sustrans cafodd hwn gyhoeddusrwydd a'i hyrwyddo'n eang, a chafwyd dros 1,000 o ymatebion gyda 778 o sylwadau.<br><br>Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal Swyddog Ysgolion Sustrans Gorllewin Cymru, gan ddarparu swyddfa a chymorth gweinyddol i ddeiliad y swydd.<br><br>Mae Swyddog Ysgolion Sustrans wedi parhau i gyflenwi rhaglen Hyrwyddo Teithio Llesol Sustrans o fewn 19 o Ysgolion Cynradd yng Ngheredigion. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 cafodd yr ysgolion eu cefnogi o bell.<br><br>Hefyd, cysylltodd Sustrans â nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd yr ysgolion hyn o fewn ardaloedd teithio llesol dynodedig Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a'r ardaloedd cyfagos.<br><br>Cafodd gweithgareddau Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd CSC h.y. Kerbcraft a Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio, eu gohirio yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cyfyngiadau Covid-19. |
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **IBERS i Benrhyncoch (Cronfa Teithio Llesol)**<br>Yn dilyn oedi i'r gwaith adeiladu a achoswyd gan gyfyngiadau Covid-19 cafodd y cynllun hwn ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol 2019-20 i'r flwyddyn ariannol ganlynol (BA2020-21) a chwblhawyd y gwaith ar y llwybr cyd-ddefnyddio newydd hwn yn Hydref 2020.<br><br>**Ailwampio Pont Feicio Pont yr Odyn (Cronfa Teithio Llesol)**<br>Gwnaed gwaith ailwampio, gan osod arwyneb mwy cadarn, di-lithr ar y bont, i wella diogelwch a mynediad ar gyfer defnyddwyr teithio llesol a'u |

| | |
|---|---|
| | hannog i'w defnyddio. Mae'r bont hon yn rhan o llwybr poblogaidd sy'n cysylltu Llwybr Beicio Rheidol â Llwybr Ystwyth, ac sydd hefyd yn ffurfio rhan o Lwybrau 81 ac 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.<br><br>**<u>Dyraniad Grant Craidd (Cronfa Teithio Llesol)</u>**<br>Roedd cynlluniau gwaith bach yn cynnwys:<br>• **Pecyn Gwaith Bach Llanbedr Pont Steffan**<br>**Maes y Felin** – Gosodwyd cyrbiau isel a chroesfannau pafin botymog newydd i wella mynediad i gerddwyr a defnyddwyr cerbydau symudedd. Gosodwyd mesurau gostegu traffig newydd i wella diogelwch ar ffyrdd yr Ystad (gydag ardal chwarae i blant a chyfleusterau hamdden gerllaw). Mae nifer o'r nodweddion hyn yn Groesfannau Lefel Uwch sydd hefyd yn gwella mynediad i gerddwyr a defnyddwyr cerbydau symudedd.<br>**Ffordd Llanfair Clydogau** – Gosodwyd cyrbiau isel a chroesfan pafin botymog newydd, ynghyd â bolardiau newydd i wella diogelwch a mynediad i gerddwyr. Mae hyn wedi gwella cysylltedd i'r bont droed newydd a'r droedffordd sy'n cysylltu â datblygiad tai newydd Tai Ceredigion.<br>• **Heol Clôs y Bath, Mwldan, Aberteifi**<br>Crëwyd system Unffordd newydd er mwyn darparu troedffordd newydd lle nad oedd un o'r blaen. Gosodwyd cysgodfan beiciau newydd yn y lleoliad canol tref hwn.<br><br>Mae'r Dyraniad Grant Craidd hefyd wedi ariannu gwaith datblygu pellach ar gynllun Llwybrau arfaethedig y Dyfodol a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i brynu tir.<br><br>**Cronfa Trafnidiaeth Leol Gynaliadwy – Grant Ymateb i Covid**<br>Fel rhan o'r cynigion i gefnogi 'gweithwyr allweddol' yn ystod pandemig Covid, gosodwyd cysgodfannau beiciau newydd i annog staff i wneud teithiau teithio llesol, ger Ysbyty Bronglais (x3) a Gorsaf Heddlu Aberystwyth (x1).<br><br>**Llwybr Cyd-Ddefnyddio Llanbadarn i Ysgol Penweddig (Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau)**<br>Cam 1 – lledwyd y droedffordd gerllaw TRA44 i greu darpariaeth cyd-ddefnyddio ar gyfer beicwyr a cherddwyr. |

| | |
|---|---|
| | Cam 2 – adeiladwyd llwybr cyd-ddefnyddio newydd di-draffig i gysylltu Llanbadarn â Chanol Tref Aberystwyth, trwy Ysgol Penweddig a Choedlan Plascrug, a thrwy hynny gysylltu hefyd â Chanolfan Hamdden Plasgrug, yr Ysgol Gynradd Gymraeg ac Ysgol Gynradd Plascrug (gan wella'r cysylltiad hefyd ag Ysgol Padarn Sant gerllaw).<br>Gosodwyd Cysgodfan Beiciau newydd yn yr ysgol i gymryd lle'r cylchoedd beiciau heb orchudd oedd yno cynt.<br><br>**Cynllun Cam 2 Troedffordd Rhiwgoch (Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau)**<br>Yn dilyn oedi i'r gwaith adeiladu oherwydd Covid-19, cafodd y cynllun hwn ei ddwyn ymlaen o Flwyddyn Ariannol 2019-20 i'r flwyddyn ariannol ganlynol (BA 2020-21) a'i gwblhau yn Hydref 2020.<br>Roedd y cynllun yn cynnwys goleuadau newydd ar y droedffordd a mesurau gostegu traffig i helpu i greu amgylchedd mwy diogel ar y ffyrdd:<br>2 dwmpath cyflymder<br>2 Groesfan Lefel Uwch. |
| Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | <u>**Cronfa Teithio Llesol**</u><br><br>**Llwybr Cyd-ddefnyddio IBERS i Benrhyncoch (Cam 2)**<br>£359,634<br><br>**Ailwampio Pont Feicio Pont yr Odyn**<br>£341,968<br><br>**Dyraniad Grant Craidd**<br>(Yn cynnwys costau adeiladu cynlluniau gwaith bach. Hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau'r Dyfodol h.y. cynlluniau nas hadeiladwyd eto).<br>£215,384<br><br><u>**Grant Trafnidiaeth Leol Gynaliadwy – Grant Ymateb i Covid**</u><br><br>Gosod cysgodfannau beiciau<br>£41,262<br><br><u>**Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau**</u><br><br>**Llwybr Cyd-ddefnyddio Llanbadarn i Ysgol Penweddig* (**)**<br>£355,164 |

| | |
|---|---|
| | **Cynllun Cam 2 Troedffordd Rhiwgoch**<br>£80,473<br><br>*yn cynnwys arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion a (**) hefyd gan drydydd partïon fel y manylir isod. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol gan drydydd partïon. | **Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau**<br>• **Llanbadarn i Ysgol Penweddig****<br>Darparwyd £1,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Tref Aberystwyth. |
| Hyd llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | <br><br>- 73 metr<br>- Amh.<br>- 1,895 metr (gan gynnwys Cefnffordd) |
| Hyd y llwybrau wedi eu gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | <br><br>- 240 metr<br>- Amh.<br>- 605 metr (gan gynnwys Cefnffordd) |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Gosodwyd 3 Cysgodfan Beiciau at ddefnydd staff Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.<br>Gosodwyd 1 Cysgodfan Beiciau at ddefnydd staff Gorsaf Heddlu Aberystwyth.<br>Gosodwyd 1 Cysgodfan Beiciau yn Ysgol Uwchradd Penweddig.<br>Gosodwyd 5 Cylch Beiciau yng Nghanol Tref Aberystwyth.<br>Gosodwyd 1 Cysgodfan Beiciau ger Theatr a Sinema Mwldan yng Nghanol Tref Aberteifi.<br>Gosodwyd 1 Gorsaf Trwsio Beiciau Gyhoeddus gyda Phwmp Teiars yng Nghanol Tref Aberteifi.<br>Gosodwyd 3 Croesfan Lefel Uwch ar Ystad Maes y Felin, Llanbedr P.S.<br>Gosodwyd 1 twmpath cyflymder ar Ystad Maes y Felin, Llanbedr P.S. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Amh. |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

| | |
|---|---|
| Llofnod y Prif Weithredwr: | |
| Enw'r Prif Weithredwr: | Mr Eifion Evans |
| Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru : | 30.09.21 |

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council